Merthyr Tudful yn ailgylchu
Merthyr Tydfil recycles

**Rydym yn gweithio'n galed i gynnal eich gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn y cyfnod hwn.**

Dyma 8 o awgrymiadau ar gyfer sut gallwch chi helpu:

1.Ewch draw i'n gwefan yn rheolaidd am y newyddion diweddaraf am unrhyw newidiadau i gasgliadau gwastraff ac ailgylchu yn eich ardal chi, yn cynnwys yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu.

2. Peidiwch â rhoi'r gorau i ailgylchu. Gyda'r economi fyd-eang yn cael ei amharu, mae'n bwysicach nag erioed i ailgylchu'ch cardfwrdd, papur, gwydr, plastigion a chaniau i sicrhau bod adnoddau gwerthfawr o'r deunyddiau hyn yn cael eu hailgylchu a'u troi'n gynhyrchion newydd i bobl eu prynu.

3. Peidiwch â mynd a dillad ac eitemau eraill i siopau elusen. Mae'r rhain yn awr ar gau. Peidiwch â gadael rhoddion ar eu stepen drws. Os ydych chi'n manteisio ar y cyfle i glirio'r atig, y garej neu'r wardrob, daliwch eich gafael ar yr eitemau hyn gan y bydd siopau elusen yn ddiolchgar iawn ohonynt ar ôl i'r argyfwng fynd heibio.

4. Ble sy'n posible, dylech osgoi sesiynau clirio mawr o gwmpas y cartref ar hyn o bryd, gan y bydd yn creu mwy o sbwriel ac ailgylchu i griwiau'r cyngor eu casglu. Dylech ddal eich gafael ar eitemau mawr fel dodrefn a matresi, nes bydd yr argyfwng wedi mynd heibio a'r gwasanaethau'n dychwelyd i normal.

5. Dylech leihau'r symiau o sbwriel, ailgylchu a gwastraff bwyd rydych yn ei greu. Bydd pob lleihad bach y gallwn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth go iawn i gynnal gwasanaeth casglu da i bawb.

- Mae cynghorion ar gyfer lleihau gwastraff bwyd i'w gweld ar y wefan hon, yn cynnwys sut i storio bwyd yn gywir a defnyddio bwyd dros ben, i wneud i'ch bwyd bara'n hirach ac i'ch helpu i wneud llai o dripiau i'r siop fwyd: lovefoodhatewaste.com (gwefan Saesneg yn unig).
- Ailddefnyddiwch eitemau y byddech fel arall yn eu taflu, neu dewch o hyd i bwrpas arall iddyn nhw. Er enghraifft, gallech ddefnyddio tybiau plastig gyda chaeadau i gadw bwydydd dros ben yn y rhewgell, neu dorri hen gynfasau a thyweli i'w defnyddio fel cadachau dystio a glanhau.

6. Parciwch eich car yn gyfrifol. Mae llawer mwy o bobl gartref, ac efallai y bydd ceir sydd wedi'u parcio yn rhwystro mynediad i'n criwiau casglu i'ch cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu, gan wneud eu gwaith yn anoddach ac yn cynyddu'r tebygolrwydd na ellir gwagio'ch cynwysyddion.

8. Peidiwch â llosgi'ch gwastraff gartref. Mae hyn yn creu llygredd aer a allai beri niwed i bobl gyfagos a allai fod yn cael problemau anadlu'n barod oherwydd COVID-19. Mae perygl hefyd y gallai tanau fynd tu hwnt i reolaeth. Mae'r gwasanaethau tân ledled y wlad yn dweud bod cynnydd mewn galwadau oherwydd tanau mewn gerddi.

**Cwestiynau cyffredin Argyfwng COVID-19: Casgliadau gwastraff ac ailgylchu**

**A yw'n ddiogel i gasgliadau barhau ar yr adeg hon?**

Diogelwch ein staff a'n preswylwyr yw ein pryder uchaf yn enwedig ar yr adeg hon o'r argyfwng. Rydym yn dilyn canllawiau'r llywodraeth a'r diwydiant gwastraff ynghylch arferion gwaith diogel i'n staff. Rydym wedi cynnal asesiadau sy'n ymwneud â'r risgiau posibl ar gyfer pob gwasanaeth ac yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Rydym wedi briffio ein holl staff ar y gweithdrefnau hyn i sicrhau eu diogelwch hwy a'r cyhoedd.

Mae eich staff casglu yn weithwyr allweddol: cadwch nhw'n ddiogel, os gwelwch yn dda. Pan fyddwch yn rhoi'ch bagiau, biniau, bocsys a chadis gwastraff ac ailgylchu allan, dyma beth allwch chi ei wneud i sicrhau'ch bod yn gwneud hynny mor ddiogel â phosibl:

• Os ydych chi'n hunanynysu ac yn teimlo'n wael, dylai'ch gwastraff personol (fel hancesi papur) gael eu bagio'n ddwbl a'u rhoi o'r neilltu am o leiaf 72 awr (3 diwrnod) cyn eu rhoi allan i'w casglu.

• Peidiwch â rhoi hancesi papur yn eich ailgylchu gan na ellir eu hailgylchu.

• Diheintiwch handlenni'ch bagiau, biniau, bocsys a chadis cyn ac ar ôl ichi eu cyffwrdd.

• Rhowch eich bagiau, biniau, bocsys a chadis allan y noson cyn eich casgliad, gan y gall amseroedd y casgliadau newid yn ystod y cyfnod hwn.

• Cadwch eich pellter pan fydd ein gweithwyr yn casglu'ch gwastraff a'ch ailgylchu.

• Diheintiwch handlenni'ch bagiau, biniau, bocsys a chadis eto, cyn ac ar ôl eich casgliadau.

• Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl cyffwrdd a diheintio eich bagiau, biniau, bocsys a chadis.

• Rhowch fenig, ffedogau a masgiau wyneb tafladwy ac offer amddiffynnol personol arall ("PPE") yn eich bin neu fag ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu, ynghyd ag unrhyw weips, cadachau, menig ayyb a ddefnyddiwyd i lanhau'ch bagiau, biniau, bocsys a chadis yn eich bin neu fag ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu, gan na ellir ailgylchu'r rhain ac efallai eu bod nhw wedi'u halogi.

Ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19: icc.gig.cymru/coronafeirws.

**Ydych chi'n gwneud unrhyw newidiadau i fy nghasgliadau gwastraff ac ailgylchu?**

Byddwn yn casglu'ch gwastraff ac ailgylchu o ymyl y ffordd yr un fath ag arfer, ar eich diwrnod casglu arferol. Byddwn yn parhau i gasglu'ch holl wastraff ac ailgylchu – yn cynnwys ailgylchu gwastraff gwyrdd o'r ardd, ailgylchu gwastraff bwyd, ailgylchu sych (fel cardfwrdd, papur, gwydr, plastigion a chaniau), a gwastraff na ellir ei ailgylchu.

**Pa newidiadau sydd angen imi wneud i'r ffordd rwy'n rhoi fy nghasgliadau gwastraff ac ailgylchu allan?**

Er mwyn ymateb i'r argyfwng COVID-19 presennol a pharatoi at yr heriau sydd o'n blaenau, rydym wedi mabwysiadu dulliau gweithio newydd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol. Ein nod yw gwneud hyn gan warchod ein trigolion sy'n agored i niwed ar yr un pryd â llesiant ein gweithwyr, a chyfyngu ar ledaeniad y feirws. Gan fod nifer o'n gweithwyr rheng flaen yn wael neu'n hunanynysu,

rydym wedi dod â gweithwyr i mewn o feysydd gwasanaeth a thimau eraill i sicrhau ein bod yn gallu cynnal ein casgliadau hanfodol gystal ag y gallwn. Bydd eich gwastraff ac ailgylchu'n cael ei gasglu ar eich diwrnod casglu arferol. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau eraill trwy ein gwefan a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd eich casgliad gwastraff gwyrdd o'r ardd yn parhau fel arfer. Dylech barhau i roi'ch gwastraff bwyd yn eich cadi gwastraff bwyd. Bydd eich casgliad ailgylchu sych (fel cardfwrdd, papur, gwydr, plastigion a chaniau) yn parhau fel arfer. Bydd eich casgliad gwastraff na ellir ei ailgylchu yn parhau fel arfer. Parhewch i sortio ac ailgylchu'ch gwastraff fel arfer, yn cynnwys rinsio eich eitemau gwydr, plastig a chaniau gwag, a'u rhoi yn y bagiau/biniau/bocsys/cadis cywir. Mae sortio ac ailgylchu'ch gwastraff yn gywir yn arbennig o hanfodol ar adeg fel hyn, gan y bydd yn lleihau'r amser mae'n rhaid i'n gweithwyr ei dreulio'n sortio unrhyw wastraff sy'n cael ei roi yn y lle anghywir, a bydd yn atal lledaeniad y feirws. Am fwy o wybodaeth am yr hyn y gallwch ac na allwch ei ailgylchu, ewch i'n gwefan: https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/how-to-recycle-correctly/.
Bydd eich gwastraff ac ailgylchu'n cael ei gasglu ar eich diwrnod casglu arferol. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau eraill trwy'n gwefan a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol.

**A yw'r polisi dim "top-hatio" a dim gwastraff wrth ymyl y ffordd yn dal i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod hwn?**

Ydy, mae'r polisi yn parhau mewn grym. Rydym yn parhau i gasglu'ch holl wastraff ac ailgylchu o ymyl y ffordd yn yr un fath ag arfer, ar eich diwrnod casglu arferol – yn cynnwys ailgylchu gwastraff gwyrdd o'r ardd, ailgylchu gwastraff bwyd, ailgylchu sych (fel cardfwrdd, papur, gwydr, plastigion a chaniau) a gwastraff na ellir ei ailgylchu, felly ni ddylai fod angen i chi roi allan mwy o wastraff ac ailgylchu nag arfer.

Beth ddylwn ei wneud gyda fy ngwastraff bwyd? Bydd eich casgliad gwastraff bwyd yn parhau fel arfer. Dylech barhau i roi'ch gwastraff bwyd yn eich cadi gwastraff bwyd. Efallai yr hoffech roi cynnig ar gompostio yn y cartref? Gallech sefydlu'ch bin neu dwmpath compost eich hunan yn rhad iawn, gan droi'ch gwastraff bwyd a gwastraff o'r ardd yn gompost garddio sy'n berffaith ar gyfer taenu a chyflyru'r pridd. Cliciwch yma i ddarganfod sut i fynd o'i chwmpas hi: https://walesrecycles.org.uk/cy/lleihau/compostio-yn-y-cartref

**Sut allaf i archebu mwy o fagiau leinio ar gyfer fy nghadi gwastraff bwyd yn y gegin?**

OPSIYNAU: Pan fyddwch ar fin rhedeg allan o fagiau leinio gwastraff bwyd ar gyfer eich cadi cegin, clymwch un am handlen eich cadi tu allan ar eich diwrnod casglu, a bydd ein gweithwyr yn gosod rholyn newydd o fagiau wrth ei ymyl. Gallwch hefyd brynu bagiau leinio cadi gwastraff bwyd wrth wneud eich siopa wythnosol hanfodol. NEU: Fel arfer, rydym yn sicrhau bod rhai ar gael i'w casglu o leoliadau lleol fel llyfrgelloedd, ond yn ystod yr argyfwng hwn ni fyddwn yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn. Yn hytrach, gallwch lapio eich gwastraff bwyd mewn hen bapur newydd ac yna ei osod yn syth yn y cadi gwastraff bwyd y tu allan.

**Sut allaf i archebu neu gasglu rhagor o fagiau/biniau/bocsys/cadis ailgylchu?**

OPSIYNAU: Cliciwch yma i archebu mwy o fagiau/biniau/bocsys/cadis ailgylchu: https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/new-bin/ neu cysylltwch â ni ar 01685 725000. Gofynnwn ichi fod yn amyneddgar gyda ni wrth inni wneud ein gorau i gael yr eitemau hyn atoch gynted ag sy'n bosibl.

**Gaf i drefnu casgliad gwastraff gwyrdd swmpus o'r ardd?**

Cewch, mae casgliadau gwastraff swmpus gwyrdd o'r ardd yn parhau i weithredu yn ôl y drefn arferol a gallwch archebu'r gwasanaeth trwy ffonio 01685 725000.

**Gaf i drefnu casgliad swmpus (dodrefn ac ati)?**

Cewch, mae casgliadau swmpus o'r tŷ yn parhau i weithredu yn ôl y drefn arferol a gallwch archebu'r gwasanaeth trwy'r ddolen ganlynol:

https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/bulky-items/ neu fel arall, ffoniwch ni ar 01685 725000

Field Code Changed

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, Welsh

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, No underline, Font color: Purple, Welsh

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, No underline, Font color: Auto, Welsh

**Allaf i fynd i fy Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol?**

Mae pob Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gau am resymau cadw pellter cymdeithasol yn ystod yr argyfwng hwn, yn dilyn cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth. Rhaid i breswylwyr aros gartref oni bai am siwrneiau hanfodol, megis ar gyfer bwyd, rhesymau iechyd neu waith (dim ond os na allwch weithio gartref). Nid yw ymweld â'ch Canolfan leol yn cael ei ystyried yn siwrne hanfodol. Gan fod nifer o'n gweithwyr rheng flaen yn wael neu'n hunanynysu, rydym wedi dod â gweithwyr i mewn o feysydd gwasanaeth a thimau eraill, yn cynnwys o'n Ganolfan(nau) Ailgylchu Gwastraff y Cartref, i sicrhau ein bod yn gallu cynnal ein casgliadau ymyl y ffordd cystal ag y gallwn. Dylech osgoi sesiynau clirio mawr o gwmpas y cartref ar hyn o bryd, gan y bydd yn lleihau'r symiau o wastraff ac ailgylchu rydych yn ei greu. Dylech ddal eich gafael ar eitemau mawr fel dodrefn a matresi, nes bydd yr argyfwng wedi mynd heibio a'r gwasanaethau'n dychwelyd i normal. Os oes gennych eitemau yr hoffech eu cludo i'ch Canolfan leol i'w hailgylchu, daliwch eich gafael arnynt nes bydd y safleoedd yn ailagor, os gwelwch yn dda. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd safleoedd yn ailagor ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Pe byddech yn dewis ymweld â'ch Canolfan

leol a gadael gwastraff y tu allan i'r giatiau pan fo'r safle ar gau, byddai hyn yn cyfrif fel tipio anghyfreithlon. Byddech yn torri'r gyfraith ac mae'n debygol y byddech yn cael dirwy neu'n gorfod mynd i'r llys.

**Fel arfer, rydw i'n mynd â gwasarn anifeiliaid anwes wedi'i ddefnyddio i'm Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol. Sut ddylwn i gael gwared arno tra bydd hwn ar gau?**

Os oes gennych symiau gweddol fach o wasarn anifeiliaid anwes wedi'i ddefnyddio i'w waredu, fe allech chi roi hwn allan i'w gasglu yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Neu:

Tra bod eich Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol ar gau, daliwch eich gafael ar eich gwasarn anifeiliaid anwes wedi'i ddefnyddio nes bydd y safle ailagor.

**Gaf i archebu casgliad â chymorth?**

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer casgliad â chymorth eisoes, bydd eich gwasanaeth yn parhau fel arfer. Gadewch eich bagiau, biniau, bocsys a chadis yn y lleoliad a gytunwyd arno yn eich cartref. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer casgliad â chymorth, ond yr hoffech drefnu un, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda ar y ddolen ganlynol:https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/assisted-collections/ neu ffoniwch ni ar 01685 725000. Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun a'ch bod yn hunanynysu, dilynwch y cyfarwyddiadau diogelwch gan y Llywodraeth ar gyfer rhoi'ch gwastraff ac ailgylchu allan, i'w gweld dan 'Beth ddylwn ei wneud i helpu?'

uchod. Ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19: icc.gig.cymru/coronafeirws.

**A fyddaf yn talu llai o Dreth y Cyngor oherwydd y lleihad yn y gwasanaeth casglu rydych yn ei ddarparu ar hyn o bryd?**

Ni fydd eich Treth y Cyngor yn newid o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a gwastraff yn ystod yr argyfwng hwn.

**Cafodd fy nghasgliad ei fethu – beth ddylwn ei wneud?**

Oblegid y cynnydd ym maint yr ailgylchu a'r prinder adnoddau, rydym yn cael problemau i gwblhau rhai o'n rowndiau dyddiol mewn pryd. Mae ein criwiau'n gweithio'n galed i ddarparu ein gwasanaeth wedi'i addasu yn ystod yr argyfwng hwn. Diolch ichi am eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Os cafodd eich casgliad ei fethu, byddwn yn ceisio dychwelyd i'w gasglu ar y diwrnod hwnnw neu erbyn diwedd yr wythnos, a byddwn yn gweithio dros rai penwythnosau i ddal lan ag unrhyw gasgliadau a fethwyd. Os nad oes modd inni gasglu, fe wnawn ni ddychwelyd i gasglu'r gwastraff ac ailgylchu ar adeg y casgliad nesaf sydd wedi'i amserlennu ichi. Storiwch eich eitemau ailgylchadwy'n ddiogel nes gellir eu casglu. Cadwch unrhyw bapur a cherdyn yn sych ac oddi wrth wresogyddion, ffyrnau a fflamau, fel nad yw'n mynd ar dân. Plygwch bapur, fflatiwch focsys a gwasgwch boteli a chynwysyddion plastig fel eu bod yn cymryd llai o le. Os ydych chi wedi cofrestru i dderbyn casgliad â chymorth a'n bod wedi methu casglu eich bagiau, biniau, bocsys a chadis, fe wnawn ein gorau i ddychwelyd i'ch cartref ond oherwydd ein hadnoddau cyfyngedig mae'n bosibl na fyddwn yn gallu gwneud hyn. Felly, gofynnwn ichi ddal eich gafael ar eich gwastraff ac ailgylchu ac fe wnawn sicrhau ei fod yn cael ei gasglu fel rhan o'ch casgliad nesaf.

Os nad ydych wedi cael casgliad, mae angen inni adael i'n gweithwyr wybod eu bod wedi methu casglu'ch gwastraff ac ailgylchu, felly gadewch inni wybod gan gwblhau ein ffurflen 'cysylltu â ni' ar-lein ar:

https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/missed-bin-collection/ neu drwy ffonio 01685 725000. Yn anffodus, mae rhai casgliadau wedi eu methu oherwydd nad oedd criwiau'n gallu cael gafael ar gynwysyddion gwastraff ac ailgylchu rhai cartrefi gan fod ceir wedi cael eu parcio mewn ffordd a oedd yn rhwystro eu mynediad. Os credwch mai dyma'r rheswm dros eich casgliad wedi'i fethu, symudwch eich car yn ddiogel i le parcio mwy hygyrch cyn eich casgliad nesaf, os gwelwch yn dda.

**Rwy'n ystyried archebu casgliad gwastraff preifat. Beth sydd angen i mi ei wybod?**

Gan fod nifer o'n gweithwyr rheng flaen yn wael neu'n hunanynysu, rydym wedi dod â gweithwyr i mewn o feysydd gwasanaeth a thimau eraill i sicrhau ein bod yn gallu cynnal ein casgliadau mwyaf hanfodol cystal ag y gallwn. Os dewiswch archebu casgliad gwastraff preifat ar gyfer y casgliad hwn, bydd gennych gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod unrhyw wastraff a gesglir o'ch cartref yn cael ei waredu'n gywir, ac yn gyfreithlon.

Mae'n rhaid i chi:

• gwirio bod gan unrhyw gontractwr symud gwastraff dystysgrif / trwydded cludwr gwastraff. Gofynnwch i weld copi o hwn, a gwrthod unrhyw gontractwyr gwastraff os nad ydyn nhw wedi dangos tystysgrif wreiddiol i chi.

• cadw gofnod o fanylion y cludwr gwastraff rhag ofn iddo daflu'ch gwastraff yn anghyfreithlon a'i olrhain yn ôl i chi. Mae tipio anghyfreithlon yn digwydd ger fy nghartref. Sut alla i reportio hyn? Tipio anghyfreithlon yw "gollwng unrhyw wastraff ar

dir sydd heb drwydded i’w dderbyn”. Mae unrhyw un sy'n 'tipio yn anghyfreithlon' yn torri'r gyfraith ac yn debygol o dderbyn dirwy neu orfod mynychu'r llys. Os hoffech chi riportio digwyddiad o dipio anghyfreithlon, cysylltwch â ni ar-lein:

https://www.merthyr.gov.uk/resident/street-cleaning-programme/report-fly-tipping/

neu ffoniwch 01685 725000.

**Ble gaf i’r wybodaeth ddiweddaraf?**

Mae’r wybodaeth ddiweddaraf am eich casgliadau gwastraff ac ailgylchu i’w gweld yma: https://www.merthyr.gov.uk/coronavirus